



Cyfarfod Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned

Nos Fawrth, 13 Mehefin 2017

7.00 yh

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Rhaglen

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

RHAN 1 (7.00 – 8.00 yh)

2. Ymgynghoriad Wylfa Newydd (PAC3): 24 Mai – 22 Mehefin 2017

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad uchod, gan gynnwys cyngor gan Elwyn Thomas, Cymorth Cynllunio Cymru, o ran sut y gall cyngorau tref a chymuned gymryd rhan yn y broses.

RHAN 2 (8.00 – 9.00 yh)

3. Cofnodion

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2016. (Copi ynghlwm)

Materion yn codi o'r cofnodion:

3.1 Polisi Cyfraniadau Budd

Cymunedol – Cyflwyniad gan Christian Branch, Rheolwr Busnes, Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Town and Community Councils Liaison Meeting

Tuesday, 13 June 2017

7.00 pm

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

Agenda

1. Welcome and Apologies

PART 1 (7.00 – 8.00 pm)

2. Wylfa Newydd Consultation (PAC3): 24 May – 22 June 2017

Information about the above consultation, including advice from Elwyn Thomas, Planning Aid Wales, as to how town and community councils can take part in the process.

PART 2 (8.00 – 9.00 pm)

3. Minutes

To submit, for confirmation, the minutes of the meeting held on 24 November 2016. (Copy attached)

Matters arising from the minutes:

3.1 Community Benefit

Contributions Policy – Presentation by Christian Branch, Business Manager, Regulation and Economic Development Service.

3.2 Pencampwyr Iaith Gymraeg –
cais am enwebiadau gan y cynghorau
tref a chymuned

3.3 Siarter Cymuned ar y Cyd –
diweddariad gan Huw Jones, Pennaeth
Gwasanaethau Democrataidd.

4. Gwell Cyfathrebu gyda Chynghorau Tref a Chymuned

Eitem a gyflwynwyd gan Gyngor
Cymuned Trearddur.

5. Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 – Ymgynghoriad

Cyflwyniad gan Dr Gwynne Jones, Prif
Weithredwr.

6. Grŵp Rhanddeiliaid

Cyflwyno cofnodion cyfarfod y grŵp a
gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017
(ynghlwm).

7. Cymunedau'n Gyntaf Môn

Cyflwyniad gan Alun Roberts,
Cymunedau'n Gyntaf Môn, ar beth all
Cymunedau'n Gyntaf Môn ei gynnig i'r
cynghorau tref a chymuned.

8. Côt Ymddygiad – Hyfforddiant

Rhoi rhag-rybudd am y bwriad i gynnal
sesiwn hyfforddiant i aelodau cynghorau
tref a chymuned ym mis Medi – dyddiad
i'w gadarnhau.

9. Unrhyw fater arall

3.2 Welsh Language Champions –
request for nominations from town and
community councils

3.3 Shared Community Charter –
update by Huw Jones, Head of
Democratic Services.

4. Better Communication with Town and Community Councils

Item submitted by Trearddur Community
Council.

5. The Council's Corporate Plan 2017-2022 – Consultation

Presentation by Dr Gwynne Jones,
Chief Executive.

6. Stakeholder Group

To submit the minutes of the meeting
held on 22 March 2017. (attached)

7. Môn Communities First

Presentation by Alun Roberts, Môn CF,
on the services Môn Communities First
can offer town and community councils.

8. Code of Conduct – Training

To give advance notice of the intention
to hold a training session for town and
community council members on the
Code of Conduct in September – date to
be confirmed.

9. Any other business

Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 24 Tachwedd 2016
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh

Yn bresennol:

Cyngorau Tref a Chymuned

Cyng Gordon Warren	Amlwch
Cyng Stan Zalot	Biwmares
Cyng Gwilym Looms	Bodorgan
Cliff Everett (Clerc)	Caergybi
Cyng Ann Kennedy	Caergybi
Cyng T Jones	Cylch y Garn
Cyng Elfed Jones	Llanbadrig
Cyng Dafydd Griffiths	Llaneilian
Cyng Gwilym O Jones	Llanfair yn Neubwll / Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Hanna Huws	Llanfairpwll
Cyng Gareth Cemlyn Jones	Llanfairpwll
Cyng Einion Williams	Llanfihangel Ysgeifiog
Cyng J E Lewis	Llangefni / Llangristiolus
Arnold Milburn	Llangefni
Cyng Dylan Rees	Llangefni / Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Margaret Thomas	Llangefni
Cyng Sandra Thomas	Llanidan
Cyng Dafydd Idriswyn	Pentraeth a Star
Cyng Eifion H Jones	Pentraeth
Cyng Richard Barker	Porthaethwy
Cyng Anwen McCann	Trearddur
Cyng Edna Jones	Trewalchmai
Margaret Price (Clerc)	Trewalchmai
Cyng Gordon Browne	Y Fali
Cyng Mavis Swaine-Williams	Y Fali

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng Ieuan Williams	Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd)
Annwen Morgan	Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella
	Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau
Huw Jones	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Michael Wilson	Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (eitem 1)
Islwyn Jones	Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (eitem 1)
Mared Yaxley	Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol (eitem 1)
Rhian Wyn Jones	Swyddog Polisi

Y Cyngorwyr T Victor Hughes, Alwyn Rowlands.

Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru
(eitem 6)

Jonathan Williams	Dirprwy Reolwr
Eilwen Jones	Swyddog Ardal Eang - Gwydnwch Sefydliadol
	Cymunedol a Lleol

Cyfeiriodd yr Arweinydd at farwolaeth y Cynghorydd Gwynn Jones, Cyngor Tref Amlwch, a oedd yn aelod o'r Grŵp Rhanddeiliaid ac yn arfer mynychu cyfarfodydd y Fforwm hwn yn rheolaidd. Safodd pawb a oedd yn bresennol am funud o dawelwch fel arwydd o barch.

1. Ymddiheuriadau

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Cynghorau Tref a Chymuned:

Cyngor Cymuned Bodedern
Geraint Parry (Clerc) – Llanddona a Llangoed
Meinir Davies (Clerc) – Porthaethwy
Cyng Bill Rowlands – Trearddur
Anna Jones (Clerc) – Tref Alaw

Cyngor Sir Ynys Môn:

Y Cyngorwyr Hywel Eifion Jones, John Griffith, Carwyn Jones.
Dr Gwynne Jones - Prif Weithredwr.

2. Materion yn codi o'r Pwyllgor Safonau

Cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan Michael Wilson ac Islwyn Jones, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (Aelodau Annibynnol) a Mared Yaxley, Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol, ar y materion canlynol:

Mabwysiadu Cod Ymddygiad diwygiedig erbyn 26 Gorffennaf 2016 - y rhan fwyaf o'r cynghorau bellach wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad diwygiedig. Unwaith mae wedi ei fabwysiadu rhaid i'r Cyngor Tref/Cymuned gyhoeddi hyn mewn hysbyseb papur newydd ac anfon copi o'r Cod diwygiedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Os bydd Cyngor Tref/Cymuned eisiau copi o'r Cod diwygiedig, gofynnir iddynt gysylltu hefo Mared Yaxley.

Canllaw diwygiedig ar gyfer cynghorwyr cymuned wedi'i gyhoeddi gan yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad diwygiedig - y ddolen at y canllaw, ynghyd â nodyn briffio, i'w dosbarthu at glerc cod cynghorau tref a chymuned yn y man. Argymhellwyd y dylai'r mater gael ei ychwanegu at raglen y Cyngor Tref/Cymuned i sicrhau fod y dogfennau yn dod i sylw eu haelodau.

Gofynion ar gyfer cadw cofrestrau diddordeb y Cynghorau Tref a Chymuned – nodyn briffio i'w ddosbarthu i'r cler cod yn y man. Mae pob Cyngor Tref/Cymuned angen sicrhau ei fod yn cadw cofnod o bob datganiad o ddiddordeb ysgrifenedig a wneir gan gynghorwyr mewn cyfarfodydd ffurfiol – y datganiadau yma gyda'i gilydd yw'r Gofrestr. Mae gofyn statudol i'r Gofrestr yma fod ar gael i aelodau'r cyhoedd ei gweld ar bob adeg rhesymol, yn ogystal â bod ar wefan y Cyngor Tref/Cymuned. Mae sawl Cyngor Tref/Cymuned (eu cler cod) yn defnyddio ffurflen safonol ar gyfer gwneud

datganiad o ddiddordeb – os yw Cyngor Tref/Cymuned eisiau copi o'r ffurflen a ddefnyddir gan y Cyngor Sir, er gwybodaeth, gofynnir iddynt gysylltu hefo Mared Yaxley.

Adolygiad o Gofrestrau Diddordeb – Bwriedir cynnal adolygiad o sampl o gofrestrau trwy ymweld â rhai cynghorau dros y misoedd nesaf. Pwrpas yr adolygiad fydd edrych am arferion da er mwyn eu rhannu gydag eraill a chynnig gwelliannau, er mwyn codi safonau'r holl gynghorau. Pwysleisiwyd na fyddai cynghorau'n cael eu henwi yn unigol mewn unrhyw adroddiad ac mai rôl y Pwyllgor Safonau yma oedd cynnig cymorth i'r cynghorau i gynnal a gwella trefniadau presennol.

Cyflwyniad yr Ombwdsmon i Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru – Nododd yr Ombwdsmon fod niferoedd cwynion lefel isel yn erbyn cynghorwyr cymuned wedi cynyddu ar draws Cymru. Bydd yr Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn ai pheidio. Nodwyd mai dim ond cwynion difrifol gaiff eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon ac nid cwynion blinderus. Eglurodd yr Ombwdsmon y byddai'n croesawu i'r broses o Ddatrysiad Lleol gael ei hymestyn i gynnwys y Cynghorau Tref/Cymuned – roedd yn amlwg fod disgwyliad y dylid ymdrin â chwynion lefel isel trwy brosesau mewnol gan y Cyngor Tref/Cymuned.

Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru – nodwyd y cyhoeddir pob penderfyniad ar wefan y Panel. Bydd diweddariad yn cael ei ddarparu i aelodau'r Pwyllgor Safonau a'r bwriad yw anfon y diweddariad hwn i glercod y cynghorau tref a chymuned yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau (Medi a Mawrth) o hyn ymlaen. Eto, fe argymhellwyd y dylai'r mater gael ei ychwanegu ar raglen y Cyngor Tref/Cymuned i sicrhau fod y ddogfen yn dod i sylw'r aelodau.

3. Cadarnhau cofnodion

3.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2016 fel rhai cywir. Mater yn codi o'r cofnodion:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Ymgynghori gyda'r Cymunedau

Nodwyd bod y cyfnod ymgynghori wedi cychwyn, gyda sesiynau ymgysylltu'n cael eu cynnal ar draws Ynys Môn a Gwynedd, ynghyd â holiadur ar-lein. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod lefelau presenoldeb yn y sesiynau ymgysylltu wedi bod yn isel, ond y cafwyd 500 o ymatebion i'r holiadur ar-lein hyd yn hyn. Anogwyd pawb i ymateb i'r holiaduron.

3.2 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2016 fel rhai cywir. Mater yn codi o'r cofnodion:

Ymateb i ymgynghoriad Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

Nododd y Prif Weithredwr Cynorthwyol mai dim ond 400 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd i'r Grid Cenedlaethol hyd yn hyn. Gofynnodd i'r cynghorau tref a chymuned annog unigolion a grwpiau cymunedol i ymateb. Nodwyd bwriad Un Llais Cymru i ddanfon llythyr at bob cyngor ynghylch hyn a darparu taflenni i'w cylchredeg o fewn cymunedau.

4. Grŵp Rhanddeiliaid

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2016 fel rhai cywir. Mater yn codi o'r cofnodion:

4.1 Toiledau cyhoeddus

Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol ar drosglwyddo toiledau cyhoeddus. Cyfeiriodd at y gwaith sydd angen ei wneud i uwchraddio'r toiledau ac eglurodd bod y Cyngor yn barod i wneud y gwaith yma cyn eu trosglwyddo i'r cymunedau. Nodwyd y byddai'r amserlen ar gyfer trosglwyddiadau'n cael ei hystyngiwr er mwyn caniatáu hyn. Gofynnwyd am sicrwydd bod y Cyngor Sir yn siarad gyda'r cynghorau perthnasol cyn cychwyn y gwaith er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth rhyngddynt.

Gweithredu:

- **Y Cyngor Sir i gynnal trafodaethau gyda'r cynghorau perthnasol cyn symud ymlaen gyda gwaith uwchraddio.**
- **Y Cyngor Sir i gysylltu gyda Chyngor Tref Biwmares i drafod telerau'r cytundeb cyfredol ar gyfer y toiledau ym Miwmares.**

5. Cwrdd â'r Heriau: Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2017/18

Dywedodd yr Arweinydd bod y broses o ymgynghori ar gynigion cychwynnol Cyllideb 2017/18 bellach wedi cychwyn. Y prif nod eleni oedd sicrhau cyllideb ddoeth a fyddai'n galluogi'r Cyngor amddiffyn gwasanaethau rhag toriadau llymach yn ystod 2018/19 a 2019/20 pan fydd yr arian gan Lywodraeth Cymru yn debygol o fod llawer iawn llai. Nodwyd bod y Cyngor yn wynebu toriadau o £3m i wasanaethau, yn ogystal â thoriadau ychwanegol o £5m dros y ddwy flynedd nesaf. Roedd y diffyg cyllidol posib o £3m wedi ei adnabod, a'r arbedion sydd angen eu gwneud o ganlyniad i hynny, yn seiliedig ar gynnydd arfaethedig o 3% yn y Dreth Gyngor.

Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn gofyn am sylwadau ar nifer o gynlluniau arfaethedig a fyddai'n cael eu hariannu drwy fenthyciadau, grantiau gan Lywodraeth Cymru ac eraill ac o'r incwm a gynhyrchir trwy werthu asedau, gan gynnwys adeiladau a thir, nad oes bellach eu hangen.

Gofynnwyd am farn y Cyngorau Tref a Chymuned ar y cynigion cychwynnol. Mae'r prif faterion a gyfyd yn ystod y drafodaeth wedi'u crynhoi isod:

Cyffredinol

Caergybi - dylid gwneud defnydd o bwerau sydd gan gyngorau tref a chymuned i gynyddu praeseptau er mwyn diogelu asedau lleol.

Caergybi - oes modd gofyn i Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ddyrannu grant unwaith ac am byth a fyddai'n talu costau cychwynnol er mwyn cynorthwyo'r cymunedau i drosglwyddo asedau?

Cylch y Garn - Oes gan y Cyngor Sir bolisi cyfraniadau budd cymunedol? Eglurodd yr Arweinydd bod polisi wedi cael ei ddrafftio.

Gweithredu: Eitem ar Bolisi Cyfraniadau Budd Cymunedol y Cyngor Sir i'w gynnwys ar raglen cyfarfod nesaf y Fforwm hwn.

Caergybi - Gofynnwyd am gadarnhad o'r sefyllfa o ran toriadau i gyfraniad y Cyngor i CAB. Eglurodd yr Arweinydd mai rhan o gynigion cyllideb 2016/17 oedd y cynnig hwn a bod adroddiad ar y mater gerbron y Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd.

Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol a lleihad mewn cyfraniadau

Llanfairpwll - Angen edrych yn fanylach ar y cynnig i leihau cyfraniadau'r Cyngor i'r Mudiad Ysgolion Meithrin, a hynny er mwyn sicrhau nad yw plant hefo rhieni di-Gymraeg yn colli cyfleoedd i siarad Cymraeg, a fyddai'n groes i amcanion Strategaeth Iaith Ynys Môn.

Cynlluniau Gwariant Mawr

Cylch y Garn – angen sicrhau bod y Cyngor Sir yn trafod ei gynlluniau o ran yr ystad mân-ddaliadau hefo'r diwydiant amaethyddol. Mae teimlad nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd.

Biwmares – angen i'r Cyngor Sir gyflwyno achos gadarn am gyllid i wneud gwelliannau i'r ffyrdd yn ardal ward Seiriol.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r cyngorau tref a chymuned unigol ymateb i'r ymgynghoriad, yn ogystal ag annog ymatebion o fewn eu cymunedau. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 16 Rhagfyr.

6. Gwydnwch Cymunedol

Cafwyd cyflwyniad ar yr uchod gan Eilwen Jones, Swyddog Ardal Eang - Gwydnwch Sefydliadol Cymunedol a Lleol, Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru.

Eglurwyd mai nod y cyflwyniad oedd i godi ymwybyddiaeth am wydnwch cymunedol a rhoi rhag-rybudd am y bwriad i gylchredeg holiadur i glercod y cyngorau tref a chymuned yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Pwrpas yr holiadur fydd i ganfod pa fesurau gwydnwch sydd mewn lle, gyda golwg ar sefydlu chwech ardal peilot (un o bob Sir yng Ngogledd Cymru) er mwyn hybu gwydnwch cymunedol a chreu Cynlluniau Argyfwng Cymunedol a fyddai'n cael eu hymestyn wedyn i weddill y cymunedau.

Pwysleisiwyd bod gwybodaeth leol ac ymateb buan yn hanfodol mewn argyfyngau ac mai pwrpas y cynlluniau cymunedol oedd i sicrhau bod trefniadau mewn lle i helpu'r cymunedau gychwyn ymdrin â'r sefyllfa cyn i'r gwasanaethau brys gyrraedd.

Annogwyd y cyngorau tref a chymuned i ymateb i'r holiadur maes o law.

7. Siarter Cymuned ar y Cyd

Cafwyd diweddariad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar yr uchod. Eglurodd y bwriedir adolygu cynnwys y Siarter a chynnal deialog hefo Un Llais Cymru, cyn dod â'r Siarter ar yn ôl i gyfarfod o'r Fforwm hwn. Nodwyd y byddai'r Siarter diwygiedig yn fframwaith i roi siap a phwrpas i'r berthynas bositif rhwng y Cyngor Sir a'r cymunedau ar gyfer cyfnod newydd y Cyngor o fis Mai 2017.

8. Fforwm Strategaeth Iaith Ynys Môn – Strategaeth Iaith 2016 – 2021

Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol ar Strategaeth Iaith Ynys Môn ar gyfer 2016-2021 a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ym mis Medi 2016. Eglurodd bod cynllun gweithredu'r strategaeth yn cynnwys un targed i'r cyngorau tref a chymuned – penodi pencampwr y Gymraeg. Byddai rôl y pencampwr yn cynnwys:

- Cymhathu'r di-Gymraeg i gyfarfodydd y cyngor cymuned
- Mynegi barn ar geisiadau cynllunio o safbwynt y Gymraeg
- Cymreigeiddio'r ardal, ee arwyddion siopau, enwau datblygiadau

Nodwyd y bwriad i gynnal sesiwn ymarferol yng nghyfarfod nesaf y Fforwm ar gynnal cyfarfodydd gyda mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

O ran enwi datblygiadau newydd, mynegwyd pryder y gall unrhyw oedi cyn gwneud penderfyniad arwain at sefyllfa lle mae mwy nag un enw'n cael ei arddel yn lleol. Gofynnwyd i'r Cyngor Sir weithredu'n syth er mwyn osgoi achosion o'r fath (Trewalchmai). Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y

dylai'r cyngorau gysylltu â hi neu Carol Wyn Owen, Swyddog Iaith y Cyngor os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch enwi datblygiadau.

Gweithredu: Gofynnwyd i'r cyngorau tref a chymuned anfon enwau Pencampwyr at Rhian Wyn Jones mor fuan a phosib.

9. Etholiadau Lleol 2017

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd at yr etholiadau lleol a oedd i'w cynnal ar 4 Mai 2017 ar gyfer 30 o seddi Cyngor Sir a 400 o seddi cyngorau tref a chymuned. Eglurodd bod gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor Sir trwy'r ddolen isod:

<http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/y-gofrestr-etholiadol-etholiadau-a-phleidleisio-/etholiadau-cyngor-sir-ynys-mn-4-mai-2017/>

Eglurodd hefyd bod y Tim Etholiadau bellach wedi'u lleoli ym mhrif swyddfeydd y Cyngor Sir.

Yn olaf, cyfeiriwyd at ddogfen a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ffiniau yn nodi amserlen cynnal arolygon o wardiau etholiadol y Cyngor Sir ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Bydd arolwg y Comisiwn o Sir Ynys Môn yn dechrau yn 2019. Nodwyd bod y ddolen at y ddogfen hon wedi'i chylchredeg yn ddiweddar i glercod y cyngorau tref a chymuned.

10. Unrhyw fater arall

Caergybi – cyfeiriwyd at hysbyseb yn yr 'Holyhead and Anglesey Mail' yn datgan bod sesiwn ymgysylltu i'w gynnal yn Ysgol Uwchradd Caergybi ar nos Lun, 14 Tachwedd. Roedd 15 o unigolion wedi mynd yno, ond ymddengys bod y lleoliad anghywir wedi'i gyhoeddi.

Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y cynhaliwyd y sesiwn ymgysylltu (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gweler 3.1.1) yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref. Ymddiheurodd am y camddealltwriaeth a dywedodd bod cynnig wedi'i wneud i ail-ymweld â Chaergybi cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 yh.

Grŵp Rhanddeiliaid Cyngorau Tref a Chymuned

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017 am 5.30 yh

Yn bresennol:

Cyngorau Tref a Chymuned

Cyng J E Lewis

Cyng Margaret Thomas

Cyng Einion Williams

Cyngor Cymuned Bodffordd/Tref Llangefni

Cyngor Tref Llangefni

Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng Ieuan Williams

Annwen Morgan

Rhian Wyn Jones

Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd)

Prif Weithredwr Cynorthwyol

Swyddog Polisi

Ymddiheuriadau:

Cliff Everett

Cyng Stan Zalot

Cyngor Tref Caergybi

Cyngor Tref Biwmares

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2016 fel rhai cywir.

- 1.1 Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol ar y materion canlynol:

Teclyn Partneriaethol – cafwyd cadarnhad bod y polisi a'r teclyn partneriaethol, ynghyd â fersiwn haws i'w darllen o'r teclyn, bellach ar gael ar wefan y Cyngor. Nodwyd mai dogfen fyw yw'r Teclyn a bod nifer o atodiadau bellach wedi cael eu datblygu, sydd yn rhoi canllawiau mwy manwl ar agweddau penodol, er enghraifft, rhestr wirio syml ar gyfer sefydlu partneriaeth newydd.

Bwriedir cyflwyno'r atodiadau hyn i gyfarfod nesaf y Fforwm Cyswllt, cyn eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Y weledigaeth ar gyfer Llangefni – nodwyd fel a ganlyn:

- Y Bartneriaeth bellach wedi cytuno datganiad o'r weledigaeth, ynghyd â phedair ffrwd gwaith.
- Pedwar gweithgor cyfatebol wedi'u sefydlu er mwyn adnabod blaenoriaethau o dan y pedair ffrwd ar gyfer blynyddoedd 1, 3 a 5.

- Bwrdd wedi'i sefydlu er mwyn adnabod pa flaenoriaethau y gellir eu cyflawni'n gyflym ac ystyried ffynonellau cyllidol - byddai'r Bwrdd yn cyfarfod nos Iau, 23 Mawrth yng Ngholeg Menai.

1.2 Toiledau Cyhoeddus – Llangefni

Cyfeiriodd cynrychiolwyr Cyngor Tref Llangefni at broblemau o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd anten sylw yn rhoiledau cyhoeddus Llangefni.

Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn codi'r mater gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

2. Pwrpas y Grŵp Rhanddeiliaid

Atgoffwyd y grŵp mai ei bwrpas gwreiddiol oedd archwilio'r opsiynau ar gyfer cyflawni trefniadau partneriaeth rhwng Cyngorau Tref a Chymuned a'r Cyngor, gan ganolbwyntio ar y potensial i adeiladu ar y swyddogaethau y mae'r Cyngorau Tref a Chymuned yn ymgymryd â nhw a'r gyllideb ostyngol sydd ar gael i'r Cyngor. Erbyn hyn, mae trafodaethau'r grŵp wedi'u hymestyn i ganolbwyntio mwy ar geisio datblygu mentrau a rhannu arferion da er mwyn creu 'ymdeimlad o le' o fewn y cymunedau.

Cafwyd trafodaeth am y gwahanol fentrau a oedd mewn bodolaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys un fenter a ddatblygwyd gan Gyngor Cymuned Llanfair ME i gadw'r pentref yn daclus.

O ran blaenoriaethau grŵp i'r dyfodol, cytunwyd fel a ganlyn:

y dylid ymestyn aelodaeth y grŵp, gan gychwyn trwy wahodd cynrychiolydd o Gyngor Llanfair ME i fod yn aelod o'r grŵp hwn

y dylai'r grŵp gyfarfod eto yn fuan ar ôl yr Etholiadau Lleol ac y dylid cynnwys cyflwyniad gan Bartneriaeth Llangefni ar y rhaglen

Dylid gwneud gwaith ymchwil er mwyn adnabod:

- **pa ardaloedd ar yr ynys sy'n brin o adeiladau a gwasanaethau cymunedol**
- **pa gymorth ymarferol penodol y gall Menter Môn ei gynnig i'r cymunedau**
- **pa agweddau o'r prosiect Grŵp Seiriol sydd wedi bod yn llwyddiannus a pha agweddau sydd heb weithio cystal â'r disgwyl**

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 yh.